Rhif: WG35469

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau preswyl uchel iawn

July 2019

ISBN: 978-1-83876-508-8

## Cynnwys

Tudalen


1. Cyflwyniad
2. Ymatebion i'r ymgynghoriad - trosolwg
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad - crynodeb byr
4. Ymatebion i'r ymgynghoriad - ymateb y Llywodraeth

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad "Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladu preswyl uchel iawn" (fe’i hagorwyd ar 19 Gorffennaf 2018 a’i gau ar 13 Medi 2018) ac wedi'i seilio ar y cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth bennu'r polisi hwn yn derfynol.

Y safbwyntiau a adroddir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

**Rheoliadau Adeiladu**

Mae Rheoliadau Adeiladu yn rheoli rhai mathau o waith adeiladu, yn bennaf codi ac estyn adeiladau a darparu neu estyn rhai gwasanaethau neu ffitiadau, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau'n cyrraedd safonau penodol yn gysylltiedig â iechyd, diogelwch, lles, cyfleustra a chynaliadwyedd

Y sawl sy'n cyflawni'r gwaith sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol wedi'i chyrraedd o ran perfformiad. Rôl corff rheoli adeiladu, naill ai'r awdurdod lleol neu Arolygydd Cymeradwy o'r sector preifat, yw gweithredu fel gwirydd trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel dewis arall yn lle cael trydydd parti i wirio drwy reoli adeiladu, gall gosodwyr sydd wedi cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio i unigolion cymwys, ac sydd wedi'u hasesu'n gymwys i wneud hynny, hunanardystio bod rhai mathau o waith yn cydymffurfio.

Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y modd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Gan hynny, maent yn helpu i sicrhau budd sylweddol i gymdeithas. Gall rheoleiddio hefyd orfodi costau ar fusnesau ac unigolion. Mae'r Rheoliadau Adeiladu o natur "swyddogaethol", hy, yn nodi'r gofyniad yn fras yn hytrach na rhagnodi'r dull o gyflawni hynny, sy'n anelu i leihau'r gost hon a sicrhau na cheir unrhyw rwystr i arloesi. Mae'r Canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau wedyn yn nodi rhai dulliau o fodloni'r gofynion hyn, er nad oes rhaid cadw at y canllawiau hynny os gellir dangos bod y lefel ofynnol o ran perfformiad wedi'i chyrraedd drwy ryw ffordd arall. Mae'r dull hwn yn creu eglurder i gyrff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad - Trosolwg

**Yr ymatebwyr**

Cafwyd cyfanswm o 71 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lanwodd ffurflen ymateb yr ymgynghoriad nodi i ba sefydliad yr oeddent yn perthyn o blith pedwar math ar ddeg a oedd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'arall' lle'r oedd yr ymatebydd yn nodi'r sefydliad ei hun). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a dderbyniwyd o bob sector.

| Sector | Ymatebion | % |
|---|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | 0 | 0 |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 3 | 4 |
| Awdurdod Lleol | 15 | 21 |
| Arolygydd Rheoli Adeiladu Cymeradwy | 1 | 1 |
| Pensaer | 0 | 0 |
| Gwneuthurwr | 12 | 17 |
| Yswiriwr | 2 | 3 |
| Gweithiwr proffesiynol ym maes adeiladu | 1 | 1 |
| Cynrychiolydd o Awdurdod Tân ac Achub | 4 | 6 |
| Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Tai / Landlord | 3 | 4 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli landlordiaid | 3 | 4 |
| Meddianwyr Adeilad | 2 | 3 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli tenantiaid | 0 | 0 |
| Unigolyn arall â buddiant (rhowch fanylion) | 25 | 35 |

Dyma'r ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r categori 'arall' a nododd eu manylion eu hunain:

- Unigolion Preifat
- Sefydliad Diogelwch Tân Cenedlaethol y DU
- Corff Aelodaeth ar gyfer Cymdeithasau Tai
- Sefydliad Aelodaeth Broffesiynol
- Cymdeithas Fasnach
- Corff Masnach sy'n Cynrychioli Datblygwyr
- Corff y Diwydiant
- Corff Proffesiynol
- Cymdeithas Masnach Gwneuthurwr Cynnyrch Adeiladu
- Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu
- Safonau Tai Annibynnol
- Corff Cyhoeddus.

**Ymdrin ag ymatebion**

Er rhwyddineb, darparwyd ffurflen ymateb safonol, ond pan na ddefnyddiodd ymatebwyr y ffurflen, priodolwyd yr ymatebion i'r cwestiwn mwyaf priodol. Yn ogystal, cynlluniwyd rhai cwestiynau i gael tri ateb posibl; cadarnhaol / negyddol / ddim yn gwybod. Os nad oedd yr ymatebwyr wedi defnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd, ond eu bod wedi nodi safbwynt clir yn eu hateb, priodolwyd yr ymateb hwnnw iddynt yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, os oedd ymatebydd wedi

defnyddio'r frawddeg 'Rwyf yn cefnogi'r cynnig', marciwyd ei ateb fel ateb cadarnhaol. Lle nad oedd modd nodi ymateb yn glir, cafodd atebion eu marcio'n atebion 'heb ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol, a'u cynnwys yn y crynodeb o sylwadau. Nodir yr ymatebion a briodolwyd yn [atodiad 1].


| **Cwestiwn** | | **Cadarnhaol %** | **Negyddol %** | **Ddim yn gwybod %** | **Heb ateb %** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys:** | | | | |
| **1a.** | A ydych yn cytuno y dylid gwahardd deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin? | 70 | 21 | 4 | 4 |
| **1b.** | A ddylid rhoi'r gwaharddiad ar waith drwy wneud newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu (h.y. drwy ddeddfwriaeth yn hytrach na Dogfennau Cymeradwy)? | 69 | 18 | 7 | 6 |
| **1c.** | Os na ddylid, ym mha ffordd arall y gellid cyflawni'r gwaharddiad? | **Ateb testun rhydd** | | | |
| **2.** | | | | | |
| **2a.** | i adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch? | 51 | 44 | 1 | 4 |
| **2b.** | Os nad ydych, i ba uchder (yn uwch neu'n is) y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys? Esboniwch pam. | 7 | 11 | 1 | 80 |
| **2c.** | i uchder y wal gyfan ar ei hyd, h.y. islaw ac uwchlaw 18m? | 72 | 17 | 3 | 8 |
| **2ch.** | i adeiladau preswyl uchel iawn yn unig? | 6 | 85 | 3 | 7 |
| **2d.** | Os nad ydych, a ddylai'r gwaharddiad hwn fod yn gymwys i adeiladau uchel iawn nad ydynt yn adeiladau preswyl, e.e. swyddfeydd ac adeiladau eraill, yn ogystal ag adeiladau preswyl? | 59 | 24 | 3 | 14 |
| **2dd.** | Rhowch unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'ch atebion uchod | **Ateb testun rhydd** | | | |

| Cwestiwn | | Cadarnhaol % | Negyddol % | Ddim yn gwybod % | Heb ateb % |
|---|---|---|---|---|---|
| 3a. | A ydych yn cytuno y dylid defnyddio'r system dosbarthu Ewropeaidd? | 62 | 15 | 20 | 3 |
| 3b. | Os ydych, ydych yn credu bod Dosbarth A2 neu well yw'r dosbarthiad cywir ar gyfer y deunyddiau i'w defnyddio i adeiladu wal? | 52 | 23 | 10 | 15 |
| 3c. | c. Os nad ydych, pa ddosbarth dylid caniatáu i adeiladu wal a pham? | Ateb testun rhydd | | | |
| 4. | | | | | |
| 4a. | a. A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad gwmpasu adeiladwaith y wal gyfan? | 51 | 31 | 13 | 6 |
| 4b. | b. Os nad ydych, pa agweddau ar y wal y dylai eu cwmpasu? | Ateb testun rhydd | | | |
| 4c. | c. A ddylai gwaharddiad hefyd gwmpasu sbandreli ffenestri, balconïau, brise soleil ac elfennau adeiladu tebyg? | 56 | 18 | 15 | 10 |
| 4ch. | ch. Rhowch unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'ch atebion uchod | Ateb testun rhydd | | | |
| | Cwestiwn 5 | | | | |
| 5a | a. A ydych yn cytuno y dylai nifer gyfyngedig o elfennau system wal, drwy eithriad, fod yn esempt o'r gwaharddiad arfaethedig? | 56 | 24 | 13 | 7 |
| 5b | b. Os ydych, pa elfennau y dylid eu cynnwys ar restr o esemptiadau a pha amodau y dylid eu gosod ar eu defnyddio? | Ateb testun rhydd | | | |
| 5c | c. Os nad ydych, pa ffordd arall o gyflawni'r nodau polisi y byddech yn ei hawgrymu? | Ateb testun rhydd | | | |
| | Cwestiwn 6 | | | | |
| | Ydych chi'n cytuno: | | | | |
| 6a | a. y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i addasiadau sylweddol arfaethedig i adeiladau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys trosgladin? | 66 | 17 | 8 | 8 |
| 6b | b. y dylai'r gwaharddiad gynnwys prosiectau y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn i'r gwaharddiad ddod i rym ond lle nad oes gwaith wedi dechrau ar y safle? | 58 | 24 | 8 | 10 |
| 6c | c. na ddylai'r gwaharddiad effeithio ar brosiectau lle mae gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau? | 35 | 39 | 15 | 10 |
| 6ch | ch. Rhowch unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'ch atebion uchod | Ateb testun rhydd | | | |

| | Cwestiwn 7 | Ateb testun rhydd |
|---|---|---|
| 7a | a. Ar ba elfennau o waliau y mae'r newid arfaethedig yn debygol o effeithio – h.y. pan fyddent yn pasio fel darn o system gladin mewn prawf BS 8414 ond na fyddent yn bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell (e.e. byrddau gorchuddio neu rwystrau anwedd)? | Ateb testun rhydd |
| 7b | b. Yn Lloegr mae awgrymiadau, ers tân Tŵr Grenfell, fod cyfran fawr o'r gwaith adeiladu perthnasol eisoes yn defnyddio elfennau sy'n bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell. Beth yw eich profiad chi? | Ateb testun rhydd |
| 7c | c. Pa effaith y bydd dileu mynediad i BS 8414 ar gyfer yr adeiladau hynny y bydd prawf y gwaharddiad yn effeithio arnynt yn debygol o'i chael? | Ateb testun rhydd |
| 7ch | ch. Faint o gost ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig fel arfer â bodloni'r gofynion newydd arfaethedig (ar gyfer adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch) yn erbyn adeilad sy'n bodloni'r gofynion presennol? (Rhowch unrhyw fanylion pellach.) | Ateb testun rhydd |
| 7d | d. Rhowch unrhyw sylwadau pellach ar yr effaith y mae'r newid hwn yn debygol o'i chael ar y diwydiant adeiladu e.e. cadwyni cyflenwi. | Ateb testun rhydd |
| | Cwestiwn 8 | |
| | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol: | Ateb testun rhydd |

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad - crynodeb byr


**Roedd C. 1a yn gofyn a ydych yn cytuno y dylid gwahardd deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin?**




O'r rhai a atebodd y cwestiwn, cytunai 74 y cant y dylid gwahardd deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin.

Roedd y rhai nad oeddent yn cefnogi gwahardd deunyddiau llosgadwy yn wneuthurwyr, gydag wyth yn erbyn a phedwar o blaid gwahardd; ac yn ymatebwyr eraill a oedd yn perthyn i gategorïau ar wahân i'r rhai a restrwyd, (ee, cymdeithasau masnach neu gyrff proffesiynol), yr oedd saith yn erbyn 12 ohonynt o blaid gwahardd.

**Roedd C. 1b yn gofyn a ddylid rhoi'r gwaharddiad ar waith drwy wneud newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu (h.y. drwy ddeddfwriaeth yn hytrach na Dogfennau Cymeradwy)?**




O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 73 y cant yn cefnogi rhoi'r gwaharddiad ar waith drwy wneud newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu.


Cafwyd ymatebion atodol hefyd i'r cwestiwn hwn, lle'r oedd y rhai a gefnogai'r gwaharddiad yn nodi bod deddfwriaeth yn creu dealltwriaeth glir o'r gofynion. Roedd y rhai nad oeddent o blaid newid y rheoliadau o'r farn y byddai diwygio'r dogfennau cymeradwy yn galluogi mwy o hyblygrwydd ac yn osgoi unrhyw rwystr i arloesi.

**C. Roedd 1c yn gofyn ym mha ffordd arall y gellid cyflawni'r gwaharddiad os nad oedd yr ymatebydd o blaid hynny?**

Dim ond un dewis arall a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr er mwyn sicrhau'r gwaharddiad; diwygio Dogfen Gymeradwy B. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid symleiddio'r cynnwys fel bod y canllawiau'n eglur. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd:

- Er bod deddfwriaeth yn gyfrwng priodol ar gyfer gwahardd, bydd angen i'r diwydiant a'r Llywodraeth gymryd camau i gyd-fynd â hynny, fel yr argymhellwyd yn adolygiad Hackitt.
- Mae gofynion sy'n seiliedig ar berfformiad systemau graddfa fawr yn ffordd arall o ganfod beth sy'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel cladin ar adeiladau uchel, a dyna'r ffordd orau o wneud hynny. Roeddent o'r farn fod hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad na ellid ei sicrhau drwy ddosbarthu cynnyrch unigol.

**Roedd C. 2a yn gofyn a ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i adeiladau 18m o uchder neu'n uwch?**




O'r rhai a ymatebodd, roedd 53 y cant o blaid gwahardd deunyddiau llosgadwy mewn adeiladau 18m o uchder neu'n uwch. Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau eraill ynghylch sut y dylid cymhwyso gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy. Ceir crynodeb o'r ymatebion hyn ochr yn ochr â'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 2b.

**Roedd C. 2b yn gofyn i ba uchder, yn uwch neu'n is, y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys os nad oedd yr ymatebydd yn cytuno.**

Roedd nifer o ymatebwyr yn cynnig y dylid cymhwyso gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy i bob adeilad, waeth beth fo'i uchder. Dyma'r rhesymau a roddwyd i gefnogi'r farn hon:

- Nododd nifer o ymatebwyr fod pob deunydd llosgadwy mewn systemau cladin yn achosi perygl i dân ledaenu'n gyflym ar y tu allan i adeilad.

- os pennir trothwy, bydd hynny'n achosi parhau â'r arfer cyfredol o leoli'r llawr a feddiannir neu uchder yr adeilad fymryn yn is na'r trothwy, er mwyn osgoi baich rheoleiddio.
- Pennwyd 18 metr fel uchder priodol yn y gorffennol gan fod hynny'n cyd-fynd â chyfarpar ymladd tân penodol oedd yn cael ei ddefnyddio. Nid yw'r cyfarpar hwn yn cael ei ddefnyddio bellach felly mae'r sail ar gyfer y trothwy wedi'i cholli.


Roedd rhai ymatebwyr o'r farn dylai'r trothwy fod yn gysylltiedig â nifer y lloriau mewn adeiladau yn hytrach nag uchder penodol. Dyma'r rhesymau a roddwyd gan rai a gynigiai hynny:

- Cyfeiriodd tri o ymatebwyr at 10 llawr, yn seiliedig ar Adroddiad Hackitt a nodai mai adeiladau 10 llawr neu fwy oedd â'r perygl mwyaf o dân ac o farwolaethau pe bai hynny'n digwydd.
- Ystyriai ymatebydd arall mai'r uchder priodol oedd 3 llawr.

Nododd dau ymatebydd y dylai'r uchder yn gysylltiedig â'r gwaharddiad fod yn seiliedig ar y llwybrau dianc sydd ar gael. Lle bo amryw o lwybrau dianc ar gael, dylid pennu 18 metr fel uchder, a lle bo un llwybr dianc ar gael, dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys dros 12 metr.


Cafwyd sylwadau hefyd gan rai nad oeddent o'r blaid cael unrhyw waharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy, a ddywedai mai parhau i ddefnyddio'r prawf system yw'r unig ffordd ddibynadwy o sicrhau diogelwch adeiladau.

**Roedd C. 2c yn gofyn a ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i uchder y wal gyfan ar ei hyd, h.y. islaw ac uwchlaw 18m?**




Roedd y mwyafrif a atebodd y cwestiwn yn cefnogi gwaharddiad a oedd yn berthnasol i uchder y wal gyfan ar ie hyd, h.y. islaw ac uwchlaw'r trothwy.


**Roedd C. 2ch yn gofyn a ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i adeiladau preswyl uchel iawn yn unig?**




Nid oedd 91 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylid cymhwyso'r gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy i adeiladau preswyl uchel iawn yn unig. Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylid ymestyn y gwaharddiad i gynnwys adeiladau eraill lle mae'r meddianwyr yn debygol o fod yn cysgu ac/neu'n agored i niwed, ee ysbytai a chartrefi gofal. Mynegodd nifer o ymatebwyr hefyd y farn y dylai'r polisi fod yn berthnasol i bob adeilad lle mae pobl yn debygol o fod yn cysgu.

Nid oedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r cynnig gan nad oeddent o blaid cael gwaharddiad ar unrhyw adeilad. Yn hytrach, mae'r ymatebwyr hynny o blaid cynnal profion priodol graddfa fawr ar ddeunyddiau.

**Yn C. 2d, os nad oedd yr ymatebydd yn cytuno, gofynnwyd a ddylai'r gwaharddiad hwn fod yn gymwys i adeiladau uchel iawn nad ydynt yn adeiladau preswyl, e.e. swyddfeydd ac adeiladau eraill, yn ogystal ag adeiladau preswyl?**




Mae 69 y cant o'r rhai a ymatebodd o'r farn y dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i adeiladau amhreswyl yn ogystal ag adeiladau preswyl uchel iawn.

I gefnogi eu barn, cafwyd y sylwadau a ganlyn gan y rhai a oedd o blaid cymhwyso'r gwaharddiad i adeiladau amhreswyl uchel iawn:

- Waeth beth fo uchder adeiladau a'r mathau o feddiannaeth, mae'r risg y bydd tân yn lledaenu ar y tu allan i adeilad oherwydd deunyddiau llosgadwy mewn cladin allanol yn golygu y byddai'n well ymestyn y gwaharddiad i gynnwys pob math o feddiannaeth.
- Yn ogystal â mathau eraill o ddefnydd mewn adeiladau uchel iawn, ceir grwpiau pwrpas eraill fel cartrefi gofal, ysbytai, gwestai, adeiladau defnydd cymysg ac adeiladau tebyg, lle gallai fod yn briodol rheoli nodweddion tân y cladin allanol, waeth beth fo uchder yr adeilad dan sylw.
- Byddai cymhwyso'r gofynion i bob adeilad yn sicrhau bod unrhyw ddefnydd amhriodol o ddeunyddiau cladin yn amharu ar unrhyw newid defnydd yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod yn ddiogel.

Dyma'r sylwadau a gafwyd gan y rhai nad oeddent o blaid cymhwyso'r gwaharddiad i adeiladau eraill uchel iawn:

- Mewn unrhyw ymyrraeth, dylid canolbwyntio ar yr adeiladau hynny a chanddynt y proffil risg uchaf.
- Os cyflwynir gwaharddiad, ni ddylai gynnwys grwpiau eraill o adeiladau gan fod llai o berygl tân yn gysylltiedig â'r adeiladau hynny, ar y cyfan, er enghraifft: nid yw'r holl adeiladau hyn yn cael eu meddiannu drwy'r amser, felly ceir gofynion ac ymagweddau eraill yn gysylltiedig â'r strategaeth gwacáu fydd yn golygu nad oes angen gwaharddiad.
- Dywedodd rhai ymatebwyr na fydd gwahardd cladin llosgadwy ar unrhyw adeilad yn cyflawni'r amcan o greu adeiladau mwy diogel, waeth beth fo'u huchder na'r defnydd ohonynt.

**C. 2dd: rhowch unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'ch atebion uchod**

Cafwyd nifer o sylwadau eraill yn gysylltiedig â'r cwestiynau uchod, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'r math o adeiladau y dylai'r gwaharddiad arfaethedig fod yn berthnasol iddynt, gan gynnwys :

- Sylwadau cyffredinol ynghylch yr angen i gadarnhau sut y dylid mesur yr adeilad, ac ymhle y dylid gwneud hynny, er mwyn canfod a yw'r gwaharddiad yn effeithio arno.
- Gall ffactorau allanol (fel pellter oddi wrth y terfyn ac unrhyw rwystrau eraill naturiol neu o wneuthuriad dynol) atal mynediad llawn at berimedr llawn yr adeilad, felly mae tybio bod modd diffodd tân yn rhwydd hyd at 18m yn dybiaeth anhygoel, afrealistig a pheryglus.

O ran yr adeiladau y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys iddynt, cafwyd y sylwadau canlynol gan y rhai a oedd o blaid ymestyn y gwaharddiad i gynnwys adeiladau eraill.

- Byddem hefyd yn argymell y dylid ystyried adeiladau a datblygiadau lle cyfyngir ar fynediad y frigâd dân at y ffasâd allanol (ee, deciau podiwm, iardiau, mynedfeydd cul ac ati)
- Dylai unrhyw waharddiad effeithio ar bob adeilad dros 18 metr o uchder er mwyn osgoi dryswch, gan leihau'r amwyster a'r cymhlethdod yn gysylltiedig ag amrywio gofynion perfformiad ar gyfer mathau o meddiannaeth nad ydynt ond ychydig yn wahanol i'w gilydd, ac atal unrhyw broblemau eraill a allai gael eu hachosi yn sgil newid i ddefnydd yr adeilad yn y dyfodol.
- dylai'r gwaharddiad hefyd fod yn berthnasol i eiddo swyddfa gan fod cynlluniau llawr agored mawr yn achosi mwy o berygl eto i dân ledaenu'n gyflym, gan alluogi tân mewn eiddo o'r fath, nid yn unig i ledaenu'n gyflym yn allanol drwy unrhyw ddeunyddiau

llosgadwy allanol, ond hefyd yn fewnol gan na cheir unrhyw is-raniadau mewnol effeithiol.

- dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i bob adeilad lle ceir cyfarwyddyd "aros yn yr unfan nes". Byddai hyn yn golygu bod llawer o adeiladau risg uwch yn cael eu cynnwys, fel cartrefi gofal, lle mae angen cymorth i ddianc, a hefyd yn cael gwared â'r gwahaniaethu ffug rhwng adeiladau uchel ac iddynt ddefnydd amrywiol. Byddai hefyd yn cael gwared â'r gwahaniaeth mawr o ran risg rhwng adeilad 17.9m o uchder ac adeilad 18.1m o uchder.


O ran yr adeiladau y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys iddynt, nodwyd y canlynol gan yr ymatebwyr a oedd am gyfyngu ar y gwaharddiad:

- Gallai gwaharddiad cyffredinol annog torri costau a difaterwch o ran dylunio ac adeiladu, na fydd o reidrwydd yn arwain at adeiladweithiau / adeiladau mwy diogel.

Dywedodd nifer o ymatebwyr nad yw'r gwaharddiad arfaethedig yn ymdrin â'r materion a gyflwynwyd yn adolygiad Hackitt, a ddangosai fod angen mynd i'r afael â llawer o elfennau ac a arweiniodd at 53 o argymhellion er mwyn gwella cydymffurfiaeth a gorfodaeth.

Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd nad ydynt o blaid cael gwaharddiad ar unrhyw adeilad, a'i bod yn dal yn bosibl cael system sy'n cynnwys deunydd inswleiddio llosgadwy a all fodloni'r meini prawf perfformiad yn gysylltiedig â lledaeniad tân cyfyngedig. Byddai hynny'n seiliedig ar brofi'r system yn unol â BS8414, a'r meini prawf perfformiad a nodir yn BR135.

**Roedd C. 3a yn gofyn a ydych yn cytuno y dylid defnyddio’r system dosbarthu Ewropeaidd?**





Yr oedd 64 y cant yn cytuno, 15 y cant yng anghytuno, a 21 y cant ddim yn gwybod a ddylid defnyddio'r system dosbarthu Ewropeaidd i ddiffinio hylosgedd. Gwnaeth ymatebwyr hefyd amrywiaeth o sylwadau ynghylch mabwysiadu'r system dosbarthu Ewropeaidd.

- Nododd y rhai a oedd yn cytuno y byddai'n fuddiol gweithredu system dosbarthu gyfun yn y DU gan y byddai hynny'n creu mwy o eglurder o ran rheoleiddio.
- Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ynghylch yr anawsterau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r system Ewropeaidd. Dyma'r sylwadau hynny:
    - ar gyfer y dosbarthiadau cenedlaethol "anllosgadwy" a "hylosgedd cyfyngedig" sy'n seiliedig ar BS476-4 a -11 mae angen cynnal prawf perfformiad llawer mwy trylwyr na dosbarthiadau Ewropeaidd A1 ac A2 sydd yn seiliedig ar brofi'n unol ag E13501-1, felly

dylid ystyried hynny felly fel yr opsiwn gorau.
  - Rydym ar fin ymadael â'r Undeb Ewropeaidd felly ni fydd gennym unrhyw ddylanwad ar newidiadau i'r system Euroclass yn y dyfodol; ac
  - Ar gyfer y prawf SBI (BS EN 13823) o fewn y system Euroclass mae'n ofynnol diffinio rheolau gosod a ffitio yn safonau'r cynnyrch, ond gall gymryd blynyddoedd i gytuno ar y safonau cynnyrch hyn ar gyfer cynnyrch newydd. Mae hyn felly yn gadael bwlch yn system Euroclass ar gyfer cynnyrch newydd nad ydynt yn bodoli oddi mewn i system dosbarthu genedlaethol y DU, nad yw'n ofynnol cael rheolau gosod a ffitio ar eu cyfer.

**Roedd C. 3b yn gofyn, os oeddech yn cytuno â C. 3a, a ydych yn credu mai Dosbarth A2 neu well yw'r dosbarthiad cywir ar gyfer y deunyddiau i'w defnyddio i adeiladu wal?**




Roedd 62% yn cefnogi hyn, 21% yn anghytuno, ac 13% ddim yn gwybod ai A2 neu well yw'r dosbarthiad cywir ar gyfer deunyddiau i'w defnyddio i adeiladu wal. Heb gyfrif y rhai nad ydynt o blaid gwaharddiad (hy, na wnaethant ateb cwestiwn un yn gadarnhaol), mae 66% yn credu mai A2 yw'r dosbarthiad cywir, 14% yn anghytuno â hynny, a 12% ddim yn gwybod.

Roedd gan yr ymatebwyr farn amrywiol ynghylch defnyddio profion, gan gynnwys y farn y dylid cynnwys prawf, ee, BS8414.


**Roedd cwestiwn 3c yn gofyn, os nad ydych yn cytuno, pa ddosbarth y dylid ei ganiatáu i adeiladu wal a pham?**

Roedd y cwestiwn yn gofyn am farn ynghylch pa ddosbarth arall o ddeunyddiau na fyddent y cael eu caniatáu mwyach mewn prosiectau adeiladu o roi'r gwaharddiad ar waith. Mynegwyd pedwar safbwynt, sef:

- Ystyriai rhai ymatebwyr mai dosbarth A1 oedd y categori priodol ar gyfer deunyddiau. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn cael gwared ag unrhyw amwyster wrth ddehongli a chymhwyso'r rheolau.
- Ystyriai rhai ymatebwyr fod categori A2 yn briodol, o'i fireinio ymhellach na'r disgwyliad AD-B cyfredol o A2-s3, d2 neu well. Maent yn argymell y dylid cyfyngu'r dosbarthiad i A2-s1, d0, gan fod y dosbarthiad cyfredol yn caniatáu cynhyrchu lefel uchel o fwg a defnynnau tan.

- Roedd nifer fawr (12) o ymatebwyr o'r farn na fydd ymagwedd ragnodol sy'n ddibynnol ar ddosbarthu cynnyrch unigol yn cyflawni'r amcan o sicrhau adeiladau diogel. Maent o'r farn y dylid profi manylebau dylunio ar ffurf systemau yn hytrach na chydrannau unigol. Mae hyn oherwydd y bydd perfformiad y system yn ei chyfanrwydd yn ddibynnol ar ymadwaith gwahanol gydrannau, yn hytrach nag ar ddosbarthiad y cydrannau hynny.
- Cyfeiriodd ychydig o'r ymatebwyr at broblemau yn gysylltiedig â mabwysiadu'r safonau Ewropeaidd. I ddechrau, nid yw'r system dosbarthu Ewropeaidd o reidrwydd yn briodol nac yn berthnasol i'r holl gynnyrch sy'n berthnasol i adeiladu wal, yn enwedig yng nghyd-destun cladin sgrin law. Yn ail, dylid defnyddio cyfres BS476 o brofion gan eu bod yn sicrhau perfformiad gwell na'r dosbarthiadau Ewropeaidd A1 ac A2 ar gyfer deunyddiau anllosgadwy.

**Roedd C. 4a yn gofyn a ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad gwmpasu adeiladwaith y wal gyfan?**




Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (54 y cant) yn cytuno y dylai'r gwaharddiad gwmpasu adeiladwaith y wal gyfan.

Nododd y rhai a oedd o blaid y cynnig ei bod hi'n hanfodol rhoi diffiniad manwl o 'adeiladwaith y wal gyfan' mewn deddfwriaeth, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw un yn ceisio osgoi'r gwaharddiad arfaethedig. Mewn sylwadau gan rai a anghytunai â'r cynnig, nodwyd y byddai'n eithriadol o anodd cymhwyso gwaharddiad i bob cydran yn adeiladwaith y wal gyfan, er enghraifft, byddai rhywfaint o gynnwys llosgadwy yn bodoli o hyd, fel haen anadlol, cotiau paent, tâp a gasgedi ac ati.


**Roedd cwestiwn 4b yn gofyn pa agweddau y dylai eu cwmpasu, os nad oedd yr ymatebydd yn cytuno?**

Gofynnai'r cwestiwn hwn am gynigion eraill yn lle gwahardd deunyddiau llosgadwy yn adeiladwaith y wal gyfan. Cafwyd pedwar prif ymateb:

- Yr ymateb mwyaf cyffredin, a awgrymwyd gan ddeg o ymatebwyr, oedd cymhwyso'r gwaharddiad i gladin allanol yn unig.
- Roedd awdurdodau lleol o'r farn y dylid cynnal profion priodol a chraffu ar bob rhan o'r wal.
- Nododd nifer o ymatebwyr fod deunyddiau wedi'u cynnwys yn adeiladwaith y wal nad yw'n

ymarferol bosibl dyfarnu gradd A1 neu A2 ar gyfer hylosgedd iddynt, ac y byddai angen eu hystyried yn eithriad yn y diffiniad o adeiladwaith y wal gyfan.
- Nododd rhai ymatebwyr fod unrhyw waharddiad yn amhriodol, a bod prawf system gyfan yn ddull priodol o brofi'r holl gydrannau yn adeiladwaith y wal.

**Roedd C. 4c yn gofyn a ddylai gwaharddiad hefyd gwmpasu sbandreli ffenestri, balconïau, brise soleil ac elfennau adeiladu tebyg?**




Roedd 63 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid i'r gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy gynnwys sbandreli ffenestri, balconïau, brise soleil ac elfennau adeiladu tebyg. I gefnogi eu safbwynt, nodwyd y canlynol gan yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynnwys yr elfennau hyn yn y gwaharddiad:

- Mae potensial i'r nodweddion hyn achosi risg os ceir tân.
- Byddai cynnwys yr elfennau hynny yn y gwaharddiad yn cadw pethau'n syml ac yn atal unrhyw amwyster.

Nododd ymatebwyr hefyd y dylai'r gwaharddiad hefyd fod yn berthnasol i gydrannau 'wal fyw' a phaneli solar oherwydd gallai'r rhain hefyd gyfrannu at ledaeniad tân.

**Rodd cwestiwn 4ch yn gofyn am unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'r atebion uchod.**


Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i gyflwyno sylwadau ychwanegol ynghylch cwestiynau 4a i 4c. Nid yw'r sylwadau hynny a godwyd eisoes yn y crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod wedi'u hailadrodd yma. Dyma grynodeb o'r sylwadau ychwanegol a godwyd:

- Mewn ymateb i gwestiwn 4c,
  - Y cydrannau eraill y byddai angen ystyried eu cynnwys yn y gwaharddiad yw gerddi gaeaf, toeau gwyrdd a brown, terasau dec cynnes.
  - Dylid gwahardd unrhyw ddeunyddiau inswleiddio ac adeiladu o hydrocarbonau seiliedig ar olew mewn unrhyw gais lle gallai'r defnydd ohonynt gyfrannu at ryddhau mygdarthau gwenwynig os ceir tân. Mae hyn oherwydd bod mwy o bobl yn marw drwy fewnanadlu mygdarthau nag sy'n marw oherwydd y tân ei hun.

- Byddai gwaharddiad sy'n cynnwys yr elfennau cymharol fach hyn mewn adeiladau yn cyfyngu ar hyblygrwydd wrth ddylunio, ac yn cyfyngu ar y defnydd ohonynt mewn adeiladau, gan gael gwared â'r budd a ddaw ohonynt mewn adeiladau, fel brise soleil.

- Cyflwynodd ymatebwyr unigol y sylwadau a ganlyn, na ellir eu priodoli i is-gwestiwn penodol. Nodwyd:
  - Y dylid eithrio'r elfennau a chanddynt 'botensial ffynhonnell tanwydd isel' o'r gwaharddiad,
  - Dylid cynyddu maint rhwystrau atal tân.
  - Gall bylchau fodoli wrth wahardd cynnyrch, systemau neu fathau dethol o ddeunyddiau. Nid yw gwahardd ynddo'i hun felly yn ddigon, ac mae'n rhaid cael deddfwriaeth, safonau a phlismona da.
  - Dylid ystyried sut mae cyflwyno unrhyw waharddiad yn effeithio ar adeiladau presennol.

**Roedd C. 5a yn gofyn a ydych yn cytuno y dylai nifer gyfyngedig o elfennau system wal, drwy eithriad, fod yn esempt o'r gwaharddiad arfaethedig?**




Roedd 61 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai nifer gyfyngedig o elfennau system wal, drwy eithriad, fod yn esempt o'r gwaharddiad arfaethedig.

Yn yr ymatebion gan y rhai a gefnogai ac a wrthwynebai'r egwyddor o wahardd yn llwyr, nodwyd y byddai'n anodd adeiladu wal allanol heb gynnwys rhai esemptiadau. Dyma rai o'r esemptiadau a nodwyd gan yr ymatebwyr:

- Elfennau o fewn wal geudod sydd wedi'i selio'n briodol
- Unrhyw haen anadlol, tâp haen anadlol, tâp bwrdd gronynnau sment, rhwystrau thermol a gasgedau.

Nododd ymatebwyr y byddai'n anodd creu'r rhestr o esemptiadau oherwydd nifer y cydrannau unigol y byddai angen eu cynnwys, ac y ceid newidiadau ac arloesi yn gysylltiedig â'r cydrannau hynny. Byddai hyn yn golygu ei bod hi'n anymarferol gweithredu a phlismona'r esemptiadau.

Nododd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â gwahardd deunyddiau llosgadwy, ac nad oeddent felly'n cytuno â'r cynnig am restr o esemptiadau.

**Roedd cwestiwn 5b yn gofyn, os oedd yr ymatebydd yn cytuno, pa elfennau y dylid eu cynnwys ar restr o esemptiadau a pha amodau y dylid eu gosod ar eu defnyddio?**

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o gydrannau y dylid eu hesemptio o waharddiad arfaethedig. Dyma'r esemptiadau a awgrymwyd:

- Gasgedau, seliau, gwahanyddion gwydr dwbl, clipiau - gan dybio nad oes llawer ohonynt, ac nad ydynt yn pasio drwy rwystr ceudod, rhwystrau thermol (ee, ar adrannau llenfur allwthiol, bracedau help llaw, systemau balconi cantilifer), neu lle bo angen, y dangoswyd nad ydynt yn caniatáu i fflam ledaenu i'r adran gyffiniol, llenwadau mewn linteli strwythurol dros agoriadau, y bwriedir iddynt gyfyngu ar unrhyw bontio thermol.
- Hambyrddau ceudod, cyrsiau gwrth-leithder, haenau rheoli anwedd/haenau anadlol (os ydynt rhwng haenau anllosgadwy), rhwystrau EDPM.
- Clipiau dal deunydd inswleiddio mewn waliau
- Papur wal / gorffeniad paent
- Fframiau ffenestri - er bod angen eglurder ynghylch manylion cau ceudod
- ffenestri, balconïau, brise soleil, nwyddau dŵr glaw, balwstradau, gwydro, technolegau adnewyddadwy, lifftiau cynnal a chadw, waliau 'gwyrdd/byw', goleuadau, arwyddion, gwasanaethau penodol sydd yn torri ar draws ffabrig yr adeilad (fel bafflau acwstig, pibellau gorlif ac ati
- Elfennau o fewn waliau ceudod
- Dwythellau/llewys trwy systemau wal
- Rhwyllau/awyrellau sy'n torri drwy system/elfen wal allanol
- Gwaith pibellau/gwasanaethau sydd yn torri drwy'r system/elfen wal allanol
- Dulliau priodol o gau ceudodau ar gil ffenestri/drysau a thriniaeth perimedr/ymyl er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y deunyddiau a'r manylion a ganiateir.

O blith yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi gwaharddiad ar ddeunyddiau mewn egwyddor, dywedwyd y dylid cynnal asesiad o berfformiad yr holl gynnyrch yn rhan o system o fewn prawf graddfa fawr a oedd yn cyd-fynd â'r math o adeilad dan sylw. Dywedodd rhai o'r rheiny hefyd, pe bai gwaharddiad yn cael ei gyflwyno, na ddylai ond cynnwys y paneli cladin allanol mewn sgriniau glaw wedi'u hawyru ac y dylai'r holl gydrannau eraill fod yn esempt.


**Roedd 5c yn gofyn, os nad oedd yr ymatebydd yn cytuno, pa ffordd arall o gyflawni'r nodau polisi y byddech yn ei hawgrymu?**

Yn ogystal â'r ymagwedd o ran polisi a awgrymwyd ar gyfer deunyddiau esempt a nodwyd yng nghwestiwn 5a, rhoddwyd cyfle i nodi ffyrdd eraill o gyflawni nod y polisi. Cafwyd yr ymateb a ganlyn:

- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai deddfwriaeth yn cyflawni nod y polisi, heb fanylu ar y deddfwriaethau y byddai angen eu diwygio.
- Mewn perthynas â'r gwaharddiad arfaethedig ar ddeunyddiau llosgadwy, roedd barn yr ymatebwyr ynghylch y graddau y dylid cymhwyso'r gwaharddiad hwnnw yn amrywio. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylid ond cymhwyso'r gwaharddiad i gladin allanol llosgadwy, tra ystyriai un ymatebydd na ddylai'r gwaharddiad ond caniatáu cynnyrch inswleiddio nad oedd yn llosgadwy o gwbl. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn na ddylid cael gwaharddiad o gwbl, ond y dylid cynnal prawf systemau graddfa lawn ar yr holl gynnyrch.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ddeddfwriaeth restru'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad, yn hytrach na rhestru'r rhai sydd yn esempt. Credai y byddai'r ymagwedd honno'n well oherwydd gallai deunydd gael ei hepgor wrth lunio'r rhestr o esemptiadau.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr argymhellion o adroddiad Hackitt o ran gwella


cyfathrebu, cyfrifoldeb a chymhwysedd er mwyn sicrhau nodau'r polisi.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylid ystyried mesurau ychwanegol er mwyn gwella diogelwch tân, yn ogystal â'r gwaharddiad. Roedd y rhain yn cynnwys ôl-osod taenellwyr/systemau atal tân mewn adeiladau presennol a chyflwyno mwy nag un gyfres o risiau ym mhob adeilad preswyl amlfeddiannaeth newydd, lle bo'r llawr uchaf dros 11m o lefel y ddaear.

**Roedd C. 6a yn gofyn a ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i addasiadau sylweddol arfaethedig i adeiladau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys trosgladin?**





Roedd 72 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i addasiadau sylweddol arfaethedig i adeiladau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys trosgladin. Mae'r ymatebion a gafwyd yn awgrymu bod rhai ymatebwyr wedi camddeall ystyr y cwestiwn, ac wedi'i ateb fel pe bai'n gofyn am gael cymhwyso'r gwaharddiad yn ôl-weithredol i adeiladau presennol. Gallai'r ystadegau felly fod yn anghywir.

**Roedd C. 6b yn gofyn a ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad gynnwys prosiectau y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn i'r gwaharddiad ddod i rym ond lle nad oes gwaith wedi dechrau ar y safle?**




Roedd 64 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai'r gwaharddiad gynnwys prosiectau y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn i'r gwaharddiad ddod i rym ond lle nad oes gwaith wedi dechrau ar y safle. Cafwyd atebion gwahanol gan gyfran o'r ymatebwyr, gan gynnwys y farn y dylid ystyried hyn "fesul achos".

**Roedd C. 6c yn gofyn ydych chi'n cytuno na ddylai'r gwaharddiad effeithio ar brosiectau lle mae gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau?**




O'r rhai a ymatebodd, roedd 39 y cant yn cytuno a 44 y cant yn anghytuno â'r cynnig na ddylai'r gwaharddiad effeithio ar brosiectau lle mae gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau.

Nodwyd y canlynol gan y rhai a gytunai â'r cynnig:

- Mae'n bosibl bod prosiectau sy'n cael eu hadeiladu eisoes yn cynnwys amrywiaeth o fesurau diogelwch tân wedi'u hymgorffori yn nyluniad yr adeilad.
- Er na fydd gwaith wedi dechrau ar y safle, mae dulliau adeiladu modern yn cynnwys gwaith cynhyrchu oddi ar y safle a allai fod wedi'i gomisiynu eisoes, a byddai'n afresymol ac yn anymarferol gofyn am newid hynny.

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig i gyfyngu'r gwaharddiad i brosiectau lle nad yw'r gwaith wedi dechrau, ond dim ond ar ôl cynnal asesiad risg o'r datblygiad. Ar yr un pryd, nododd cefnogwr arall rinweddau cymhwyso'r gwaharddiad mewn modd a fyddai'n hyrwyddo newid defnydd yn y dyfodol.

Cafwyd y sylwadau a ganlyn gan y rhai nad oeddent o blaid y cynnig.

- Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â gwaharddiad mewn egwyddor, ac felly'n anghytuno â'r potensial i waharddiad amharu ar adeiladau presennol yn ogystal â datblygiadau newydd. O'r ymatebwyr â chanddynt y safbwynt hwnnw, teimlai rhai y byddai'n afresymol cymhwyso'r gwaharddiad i adeilad sy'n cael ei godi, os oedd yr adeilad wedi pasio prawf systemau.
- Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r ymagwedd seiliedig ar risg er mwyn asesu adeiladau presennol.
- Nododd dau ymatebydd nad oeddent o blaid y cynnig gan y byddai hynny'n 'caniatáu' codi adeiladau ac arnynt gladin 'anniogel'. Nododd un o'r ymatebwyr y dylid cymryd pob cam i adeiladu heb gladin llosgadwy, waeth pryd y cyflawnwyd y gwaith hwnnw, tra nododd ymatebydd arall y byddai'r eithriad hwn yn tanseilio amcan y gwaharddiad arfaethedig.

**Roedd cwestiwn 6d yn gofyn am unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'r atebion uchod.**

Rhoddodd y cwestiwn hwn gyfle i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ynghylch y sefyllfaoedd y dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol iddynt ym marn yr ymatebwyr.

Ystyriodd nifer o ymatebwyr effaith y gwaharddiad arfaethedig ar adeiladau presennol. Roedd rhai o'r farn y dylid cymhwyso ymagwedd seiliedig ar risg i'r adeiladau hyn fel bo modd ystyried nodweddion neilltuol pob adeilad wrth gymhwyso gwaharddiad. Nododd ymatebwyr fod gwaith a gyflawnwyd wedi ymestyn oes adeiladau presennol ac y byddai'r stoc o adeiladau wedi gostwng heb gyflawni'r gwaith hwnnw. Felly, dylid rhoi cymorth ariannol i gyfrannu at y gost o gyflawni gwaith adferol.

Cafwyd barn amrywiol ynghylch cymhwyso'r gwaharddiad i adeiladau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Nododd rhai grwpiau y gallai cymhwyso'r gwaharddiad fel hyn greu malltod eiddo lle byddai'r safonau a osodir ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo ond heb eu cychwyn yn uwch na'r safonau ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo a'u cychwyn. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at ddulliau adeiladu modern, lle caiff archebion eu gwneud, a lle bydd gwaith adeiladu wedi dechrau hyd yn oed, heb gyflawni unrhyw waith ar y safle, ac at y goblygiadau ariannol a chyfreithiol yn sgil diwygio'r fanyleb.

Roedd materion eraill a godwyd yn cynnwys yr angen am drefniadau trosiannol clir, a chanllawiau i egluro'r union sefyllfa lle bydd datblygiad wedi'i gynnwys. Bod angen ystyried cydymffurfiaeth a gorfodaeth ochr yn ochr ag unrhyw waharddiad arfaethedig. Nododd un ymatebydd fod angen cynnal adolygiad o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ochr yn ochr â'r cynigion.

**Roedd cwestiwn 7a yn gofyn ar ba elfennau o waliau y mae'r newid arfaethedig yn debygol o effeithio – h.y. pan fyddent yn pasio fel darn o system gladin mewn prawf BS 8414 ond na fyddent yn bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell (e.e. byrddau gorchuddio neu rwystrau anwedd)?**

Nododd yr ymatebwyr amryw o wahanol gydrannau y gallai'r newid arfaethedig effeithio arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys: Byrddau gorchuddio, byrddau inswleiddio PIR/PUR, cladin, deunydd inswleiddio, bracedi, gasgedau, rhwystrau a haenau anwedd, is-haenau, estyll, gorffeniadau ac ACM, gorchuddion brics, paneli Cladin Dosbarth B, system Gebrik/G-Brick, systemau gwydr strwythurol/paneli mewnlenwi, nodweddion cladin coed a ddefnyddir ar lefel isel yn unig, elfennau cysgodi solar, rhwystrau ceudod pren, a ffenestri fframiau pren lle bo'r ffrâm ei hun yn cau o amgylch y ffenestri. Yn ogystal â hyn, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y gallai cwmpas gwaharddiad ar unrhyw ddeunydd llosgadwy fod yn eithriadol o eang ac, mewn egwyddor, y gallai effeithio ar yr holl elfennau o fewn system.

Roedd nifer o ymatebwyr a oedd yn cefnogi system wedi'i phrofi ac yn seiliedig ar berfformiad er mwyn bodloni gofynion BS8414 neu BR135 o'r farn fod hynny'n ddull mwy cadarn o ystyried perfformiad cynnyrch.

**Roedd cwestiwn 7b yn gofyn: Yn Lloegr mae awgrymiadau, ers tân Tŵr Grenfell, fod cyfran fawr o'r gwaith adeiladu perthnasol eisoes yn defnyddio elfennau sy'n bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell. Beth yw eich profiad chi?**

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod wedi gweld tuedd i gynnwys cynnyrch anllosgadwy ar fanylebau datblygiadau. Nododd rhai ymatebwyr bryder ei bod hi'n bosibl na fydd hynny'n gwneud adeiladau'n fwy diogel gan na fydd prawf priodol wedi'i gynnal ar y system gyfan.

**Roedd cwestiwn 7c yn gofyn pa effaith y bydd dileu mynediad i BS 8414 ar gyfer yr adeiladau hynny y bydd prawf y gwaharddiad yn effeithio arnynt yn debygol o'i chael?**

Nododd yr ymatebwyr y problemau a ganlyn yn gysylltiedig â chael gwared â mynediad i brawf BS 8414:

- Cyfyngu ar y mathau driniaethau ffasâd sydd ar gael.
- Mae gan y rhan fwyaf o gynnyrch inswleiddio A1 ac A2 ymwrthedd thermol is o'u cymharu â'r deunyddiau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd thermol a geir ar hyn o bryd, gellid bod angen cael waliau mwy trwchus, cynyddu ôl troed cyffredinol yr adeilad neu leihau arwynebedd net yr ystafelloedd.
- Problemau strwythurol posibl yn sgil y cynnydd mawr o ran pwysau a thrwch wrth ddefnyddio deunyddiau anllosgadwy.
- Yr effaith ar adeiladau presennol sydd wedi defnyddio systemau a brofwyd hyd at BS 8414:1 neu 2 ac sydd wedi ennill dosbarthiad BR135. Gallai'r gwaharddiad achosi problemau o ran malltod eiddo/colli gwerth neu sicrhau yswiriant eiddo, problemau ynghylch pwy fydd yn talu i osod cladin newydd ar adeiladau presennol.
- Ofn, pryder a straen diangen ymhlith y cyhoedd.
- Bydd hyn yn effeithio ar lawer iawn o adeiladau.
- Atal arloesi a thwf
- Ni fydd 'gwahardd' o reidrwydd yn atal pobl rhag eu defnyddio Mae'n well gwella cymhwysedd a threfniadau goruchwylio.
- Gallai gor-reoleiddio, ac yn enwedig gor-ragnodi gyfyngu'n aruthrol ar hyfywedd wrth godi adeiladau a chanddynt lefel is o risg, gan lesteirio twf ac atal y diwydiant rhag ateb y galw.

Nododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch prawf BS8414 ei hun, a'r farn nad oedd yn adlewyrchu sefyllfa yn y byd go iawn lle byddai'r cynnyrch wedi'i osod. Codwyd cwestiynau felly ynghylch ei ddibynadwyedd.

**Roedd cwestiwn 7ch yn gofyn: faint o gost ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig fel arfer â bodloni'r gofynion newydd arfaethedig (ar gyfer adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch) yn erbyn adeilad sy'n bodloni'r gofynion presennol? (Rhowch unrhyw fanylion pellach.)**

Nododd rhai ymatebwyr y gallai defnyddio deunydd inswleiddio anllosgadwy yn hytrach na deunydd inswleiddio llosgadwy ychwanegu 0.1% arall at gyfanswm cost prosiectau, tra'r oedd eraill o'r farn y byddai'r gost honno'n sylweddol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y ceid amrywiaeth eang o broblemau a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol, ac y byddai'n anodd cyfrif rhai o'r costau hynny.

**Roedd cwestiwn 7d yn gofyn am sylwadau pellach ynghylch yr effaith y mae'r newid hwn yn debygol o'i chael ar y diwydiant adeiladu e.e. cadwyni cyflenwi.**

Nododd yr ymatebwyr y materion a ganlyn:
- Nododd yr ymatebwyr y byddai gwaharddiad cyffredinol ar ddeunyddiau llosgadwy yn ei gwneud hi'n anodd iawn caffael deunydd inswleiddio anllosgadwy ar draws yr holl sector adeiladu. Mae hyn hefyd yn creu monopoli i sector penodol na cheir rhyw lawer, os o gwbl, o gystadleuaeth yn ei erbyn ar hyn o bryd, a allai achosi prinder a chynnydd mewn prisiau ar hyd y gadwyn gyflenwi. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr eraill fod llawer o wledydd eisoes yn gwahardd neu'n cyfyngu ar ddeunyddiau llosgadwy mewn adeiladau uchel iawn. O'u profiad hwy, byddai cadwynau cyflenwi, arloesedd cynnyrch ac elfennau eraill yn y gadwyn gwerth adeiladu yn ymaddasu'n naturiol i fodloni'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio mewn unrhyw farchnad benodol.
- Byddai'n llesteirio gallu'r diwydiant i arloesi ac i ganfod y datrysiadau gorau ar draws ystod eang o adeiladau.
- Lleihau'r gallu i gyrraedd targedau'r Llywodraeth ar gyfer lleihau carbon, sydd eisoes yn uchelgeisiol.
- Mae'n peryglu creu diwylliant o hunanfodlonrwydd yn hytrach nag ysgogi diwylliant sy'n annog cyfrifoldeb a safonau gwell.

**Roedd cwestiwn 8 yn gofyn am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.**

Cododd yr ymatebwyr hefyd y pwyntiau eraill canlynol yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad:
- Dylid cysoni newidiadau o ran polisi ar draws Lloegr a'r Alban er mwyn sicrhau ymagwedd gyson fydd o gymorth i'r diwydiant.
- Dylai'r gwaharddiad gynnwys yr holl adeiladau uchel iawn ac uchel eu risg, fel ysbytai a chartrefi gofal, ysgolion, gwestai ac arenâu chwaraeon, lle gallai gadael yr eiddo fod yn her, waeth beth fo'u huchder.
- Mae'n allweddol canolbwyntio ar y modd y gellir gorfodi rheoliadau a gweithredu cosbau lle ceir tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio.
- Os bydd gwaharddiad yn cael ei roi ar waith, sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb i feddianwyr sy'n teimlo nad yw eu hadeilad yn ddiogel os na chaiff ei addasu i gyd-fynd â'r gwaharddiad? Gallai hyn achosi ôl-gostau aruthrol y byddai angen i'r Llywodraeth eu talu pe bai'r adeilad hwnnw wedi'i adeiladu neu ei ailwampio'n wreiddiol i fodloni cyfres gytunedig o safonau.
- Byddai gwahardd yn achosi pob math o gymhlethdodau ac yn creu nifer fawr o ganlyniadau anfwriadol. Byddai'n cyfleu negeseuon cymysg wrth yswirwyr a darparwyr morgais. Sut fydd y Llywodraeth yn ymdrin ag unrhyw gostau angenrheidiol er mwyn ailddylunio ac ail-lunio manylebau cynnyrch.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad - Ymateb y Llywodraeth

Mae ein dull polisi terfynol yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'r cyngor a gafwyd gan Bwyllgor Cynghori Rheoliadau Adeiladu Cymru.

**Mathau o adeiladau**
Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y byddai'r gwaharddiad yn berthnasol i flociau o fflatiau ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio mewn ffordd debyg, gan fod y rhain yn peri'r risg fwyaf i fywyd, oherwydd eu bod yn cynnwys risg gysgu. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynhigion. Felly, bydd y gwaharddiad yn berthnasol i bob adeilad preswyl dros 18 metr.

Roedd cyngor pellach a dderbyniwyd yn cynnig bod ysbytai, gan gynnwys ysbytai preifat, yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y cynllun. Felly, bydd y gwaharddiad yn berthnasol i bob adeilad ysbyty dros 18 metr.

Bydd y gwaharddiad yn berthnasol i'r adeiladau hyn lle mae gwaith adeiladu'n cael ei wneud, gan gynnwys estyniadau, newid y ffordd maent yn cael eu defnyddio ac addasiadau sylweddol. Mae'r gwaharddiad yn berthnasol i adeiladau o fewn y cwmpas sydd dros 18 metr o uchder, lle mae uchder yr adeilad yn cael ei fesur o lefel isaf y ddaear ar bwys wal allanol i arwyneb llawr gorffenedig ar y llawr uchaf lle mae pobl yn byw.

Mae'r risg mae adeiladau isel yn ei pheri'n wahanol i'r risg sy'n cael ei pheri gan adeiladau uchel. Bydd yn bosibl archwilio'n fanylach i'r uchder critigol yn ystod yr adolygiad ehangach o ddiogelwch tân yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Hackitt a Map Ffordd y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau.

**Perfformiad gofynnol**
Nodwyd ymatebwyr y dylid gwneud Dosbarth A2 system Dosbarthu Ewropeaidd ar gyfer hylosgedd (BS EN 13501) neu'n well yn ofynnol. Roedd cefnogaeth dros newid yr is-ddosbarthiadau ar gyfer mwg a defnynnau, ac felly, bydd y gwaharddiad yn cyfyngu deunyddiau i gynhyrchion sy'n ennill Dosbarth A1 neu A2s1, d0 system Dosbarthu Ewropeaidd, pan fyddant yn cael eu profi yn unol â BS EN 13501-1:2018, sy'n gyson â llawer o aelod-wladwriaethau eraill o'r UE.

**Esemptiadau**
Bydd y gwaharddiad yn berthnasol i holl elfennau waliau allanol, o'r arwyneb allanol i'r arwyneb mewnol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y byddai angen rhai esemptiadau ar gyfer elfennau lle nad oes deunyddiau di-hylosg ar gael ar hyn o bryd

Mae'r cynhyrchion ar y rhestr o esemptiadau'n cynnwys y cynhyrchion hynny lle nad oes Dosbarth A1 neu Ddosbarth A2-s1, d0 yn bodloni neu ar gael yn rhwydd.

**Ychwanegiadau**
Gwnaethom ymgynghori ar gynnwys ychwanegiadau sylweddol megis balconïau neu *brise soleil* yn y gwaharddiad. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid hyn, ac rydym yn gweithredu yn unol â hynny.

**Gweithredu**
Bydd y gwaharddiad yn cael ei weithredu drwy newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, ac rydym o'r farn bod angen trefniadau pontio i alluogi'r diwydiant i addasu. Mae tystiolaeth bod y rhan fwyaf o

brosiectau eisoes yn cyfyngu faint o ddeunyddiau hylosg sy'n cael eu defnyddio yn eu waliau allanol, felly, bydd y cyfnod pontio'n cael ei gyfyngu.

Bydd y polisi'n berthnasol i unrhyw adeiladau lle mae gwaith adeiladu'n cael ei wneud, oni bai bod gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle, neu fod hysbysiad cychwynnol, hysbysiad adeiladu neu gynlluniau llawn wedi cael ei gyflwyno, a bod gwaith ar safle wedi dechrau o fewn cyfnod o wyth wythnos.

# Atodiad 1

Priodolwyd ymatebion ar gyfer y canlynol:

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Question 1 | | Question 2 | | Question 4 | | Question 6 | | Question 7 | | Question 8 | | Question 10 | |
| 30 | yes | 30 | No | 30 | Yes | 30 | Yes | 29 | No | 30 | Yes | 30 | Yes |
| 35 | don’t know | 35 | Yes | 34 | No | 33 | Yes | 30 | No | 33 | DNA | 35 | Don't Know |
| 38 | yes | 37 | No | 35 | Yes | 35 | Yes | 35 | No | 34 | Yes | 36 | Yes |
| 39 | no | 38 | Yes | 36 | Yes | 38 | Yes | 38 | No | 36 | Yes | 39 | No |
| 41 | yes | 39 | No | 38 | No | 39 | No | 39 | No | 37 | DNA | 44 | Yes |
| 43 | yes | 43 | Yes | 39 | No | 41 | Yes | 43 | No | 38 | Yes | 45 | No |
| 44 | no | 44 | No | 43 | No | 43 | Yes | 44 | No | 39 | No | 47 | No |
| 45 | no | 47 | No | 44 | No | 44 | No | 45 | No | 40 | No | 48 | Don't Know |
| 47 | no | 48 | No | 45 | No | 45 | No | 47 | No | 41 | DNA | 57 | Yes |
| 48 | no | 50 | Yes | 47 | No | 47 | Don’t Know | 48 | don’t know | 42 | Yes | 58 | Don't Know |
| 54 | yes | 51 | DNA | 48 | No | 48 | No | 50 | No | 43 | Yes | 59 | No |
| 58 | no | 54 | Yes | 49 | No | 56 | Yes | 58 | yes | 44 | No | 61 | Yes |
| 61 | yes | 55 | No | 57 | Yes | 57 | Yes | 60 | No | 45 | No | 63 | No |
| 62 | yes | 57 | Yes | 58 | No | 58 | Yes | 61 | No | 47 | No | 64 | Yes |
| 63 | no | 58 | No | 61 | Yes | 61 | Yes | 62 | No | 48 | No | 68 | Yes |
| 64 | yes | 59 | Don’t know | 63 | No | 62 | Yes | 63 | No | 50 | Yes | 69 | Yes |
| 69 | don't know | 61 | Yes | 69 | Yes | 63 | No | 64 | No | 54 | DNA | | |
| 70 | yes | 62 | Yes | | | 64 | Yes | | | 56 | Yes | | |
| 71 | yes | 63 | No | | | 70 | Yes | | | 57 | Yes | | |
| | | 64 | Yes | | | | | | | 58 | No | | |
| | | 65 | Yes | | | | | | | 61 | Yes | | |
| | | 68 | DNA | | | | | | | 62 | Yes | | |
| | | 69 | Don’t know | | | | | | | 63 | No | | |
| | | 71 | yes | | | | | | | 64 | Yes | | |
| | | | | | | | | | | 65 | Yes | | |
| | | | | | | | | | | 70 | DNA | | |
| | | | | | | | | | | | | | |

| Question 11 | | Question 13 | | Question 15 | | Question 17 | | Question 20 | | Question 21 | | Question 22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | No | 15 | DNA | 35 | Yes | 29 | Don’t Know | 30 | Yes | 30 | No | 29 | No |
| 34 | Yes | 30 | No | 37 | No | 30 | No | 36 | Yes | 36 | Yes | 30 | No |
| 35 | Yes | 35 | Don’t Know | 38 | Yes | 35 | Don’t Know | 37 | No | 37 | no | 33 | Yes |
| 37 | Yes | 38 | Yes | 39 | No | 39 | Yes | 38 | Yes | 39 | No | 34 | No |
| 38 | Yes | 39 | No | 41 | Yes | 42 | DNA | 39 | No | 41 | Yes | 35 | Yes |
| 43 | no | 41 | Don’t Know | 43 | Yes | 43 | No | 41 | Yes | 44 | No | 37 | Yes |
| 44 | No | 43 | Yes | 44 | No | 44 | Don’t Know | 43 | Yes | 45 | No | 38 | No |
| 47 | No | 44 | No | 45 | Don’t Know | 45 | Yes | 44 | Don't Know | 47 | No | 39 | No |
| 49 | Yes | 56 | Don’t Know | 47 | Don’t Know | 47 | Yes | 45 | No | 48 | Don't Know | 43 | No |
| 51 | No | 58 | No | 48 | Don’t Know | 48 | Yes | 47 | No | 56 | Yes | 44 | No |
| 55 | No | 59 | No | 50 | Yes | 50 | Yes | 48 | Don't Know | 58 | yes | 45 | Yes |
| 57 | Yes | 60 | No | 51 | DNA | 58 | yes | 58 | Don't Know | 59 | NO | 47 | Yes |
| 58 | No | 61 | No | 52 | yes | 59 | Yes | 61 | Yes | 61 | Yes | 48 | Don't Know |
| 59 | No | 62 | Yes | 56 | Yes | 61 | Yes | 63 | No | 62 | Yes | 50 | No |
| 61 | Yes | 63 | No | 58 | No | 62 | Yes | 64 | Yes | 63 | No | 56 | Don't Know |
| 62 | Yes | 64 | Don’t Know | 59 | No | 63 | Yes | 70 | Yes | 64 | Don't Know | 57 | Don't Know |
| 63 | No | 69 | Don’t Know | 60 | No | 64 | Yes | | | 70 | Yes | 58 | No |
| 64 | Yes | | | 61 | Yes | 65 | Yes | | | | | 59 | Yes |
| 68 | Yes | | | 62 | Yes | 69 | Yes | | | | | 61 | Don't Know |
| | | | | 63 | No | | | | | | | 62 | Yes |
| | | | | 64 | Yes | | | | | | | 63 | No |
| | | | | 68 | Don’t Know | | | | | | | 64 | Don't Know |
| | | | | 71 | Yes | | | | | | | 69 | Yes |